Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bronwydd
# Neuadd Bronwydd
# Bronwydd Arms
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA33 6BE

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bronwydd yn cyfarfod yn Neuadd Goffa Bronwydd, ger Caerfyrddin. Mae'n darparu ar gyfer plant dwy a thair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 10 o blant ar y gofrestr ac y mae tri ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Mae tua hanner y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o gartrefi gyda Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff. Maent yn meddu ar gymwysterau addas ac yn brofiadol mewn gweithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2014.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2013 a chan Estyn yn Chwefror 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant;
- yr addysgu'n cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant weithio'n annibynnol ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd;
- y rhyngweithio pwrpasol rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn ymestyn geirfa'r plant mewn cyd-destunau gwahanol;
- y berthynas gadarnhaol rhwng y plant a'r ymarferwyr yn datblygu eu hyder fel dysgwyr;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant; a bod
- y lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant.

### Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd bod:

- yr arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarnhaol i waith y lleoliad;
- y defnydd adeiladol o fedrau'r ymarferwyr yn cyfrannu at waith tîm da;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn effeithlon;
- gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r lleoliad a rhai agweddau i'w datblygu;
- tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno'n effeithiol; a
- bod partneriaethau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad a lles plant.

## Argymhellion

A1. Strwythuro'r cynllunio i ddatblygu medrau'r plant yn fwy cyson yn arbennig eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2. Cynllunio tasgau sy'n cynnig her briodol i'r holl blant

A3. Sefydlu gweithdrefnau mwy manwl i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth

A4. Ehangu'r cyflenwad o offer TGCh

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau diddorol i’r plant ar draws y meysydd dysgu. Mae’r gweithgareddau’n seiliedig ar gyfres o themâu sy’n gweddu i ystod oed y plant. Maent yn cynnwys testunau megis astudiaeth o adar ac anifeiliaid, yr ardal leol, a thopigau tymhorol. Mae cyfle da i’r plant gynnig eu syniadau ar gyfer gweithgareddau, megis astudio cartrefi gwahanol, o fewn y thema.

Caiff y themâu eu cynllunio’n fanwl. Er hyn, nid yw’r cynllunio wedi’i strwythuro’n ddigon manwl i ymestyn medrau’r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Nid yw’r cynllunio ychwaith yn sicrhau bod tasgau bob amser yn cynnig her briodol i blant, yn cynnwys y plant mwy galluog.

Mae anogaeth gyson i’r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, er enghraifft, mae cyfleoedd effeithiol i’r plant wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, dysgu llythrennau’r wyddor, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio.

Mae cyfleoedd priodol i blant gyfrif, adnabod rhifau a dysgu am siapiau. Mae sesiynau coginio, sesiynau snac a sesiynau crefft yn cael eu defnyddio’n bwrpasol i hybu dealltwriaeth y plant o dermau mathemategol megis llawn a gwag, mawr a bach, hir a byr. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd y plant yn cael eu hymestyn yn ddigon cyson. Mae rhai gweithgareddau addas i’r plant ymarfer eu medrau TGCh sylfaenol yn eu chwarae ond nid oes cynllunio digon manwl i ddatblygu eu medrau.

Mae cyfleodd pwrpasol i’r plant ymarfer eu medrau meddwl ac ymchwilio trwy astudio anifeiliaid bach ac adar yn eu cynefin, er enghraifft, a thrwy weithgareddau penodol megis astudio nodweddion malwod a mwydon.

Cyflwynir y plant i draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn effeithiol.

Mae cyfraniadau ymwelwyr, megis ficer y plwyf a heddwas lleol, yn cyfrannu’n gynhyrchiol at brofiadau dysgu’r plant. Mae’r ymweliadau ag ysgolion lleol i ymuno mewn cyngherddau a dathliadau yn ehangu profiadau’r plant yn llwyddiannus.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant ac o'r Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol sy'n llwyddo'n dda i ennyn diddordeb ac ymglymiad y plant yn eu dysgu. Mae'r defnydd adeiladol o brofiadau uniongyrchol, megis ymweliadau â'r cae a'r ardal goed tu allan y lleoliad, yn sbardun effeithiol i ystod o weithgareddau. Mae'r profiad o gasglu dail yr hydref a'u dosbarthu yn ôl lliw a maint, er enghraifft, yn hyrwyddo medrau iaith a mathemateg y plant yn effeithiol.

Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a'r rhai sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'r plant yn ystod gweithgareddau. Gwnânt ddefnydd adeiladol o gwestiynu a thrafod i gadarnhau dysgu'r plant ac i ymestyn eu geirfa.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn fanwl. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi sylwadau addas. Caiff y sylwadau eu trafod yn fanwl gan yr ymarferwyr a'u hychwanegu at gofnod datblygiad y plentyn. Mae'r defnydd o'r sylwadau ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth yn datblygu gydag enghreifftiau o'r plant yn cyfrannu'n bwrpasol at gam nesaf eu dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu'n briodol am gyflawniadau a lles eu plant drwy sgyrsiau anffurfiol a thrwy adroddiadau manwl cyn i'r plant adael y lleoliad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae cyfleoedd pwrpasol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Mae byrbrydau iachus, yn cynnwys ystod o ffrwythau a llaeth, ar gael i'r plant.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch a charedigrwydd, a phwysigrwydd rhannu a chymryd tro yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau, megis adrodd gweddi o ddiolch cyn byrbryd a dysgu am stori'r geni, yn cyfrannu'n adeiladol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Yn ogystal, mae cymryd rhan mewn cyngerdd ar gyfer y rhieni yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu Gŵyl Divali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r cyfleoedd i drafod anifeiliaid o'r Affrica gydag ymwelydd ac i arsylwi ar wisgoedd traddodiadol pobl Tsieina yn cyfrannu'n briodol at hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen. Mae llinellau cyfathrebu priodol gyda gwasanaethau allweddol megis gwasanaeth iaith a lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Maent yn ail gylchu, yn tyfu planhigion, a thrwy ymweliadau, yn dysgu am adar ac anifeiliaid yn eu cynefin.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i blant i'r cwricwlwm a'r holl weithgareddau a ddarperir. Llwydda'r ymarferwyr yn dda i greu amgylchedd cynnes a chynhaliol. Maent yn ystyried a gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ac eithrio adnoddau TGCh, mae ystod briodol o adnoddau.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad yn darparu cyfleusterau addas. Mae'r ystafell ddosbarth yn gyfyng o ran lle ond yn cael ei defnyddio'n bwrpasol gan yr ymarferwyr. Caiff yr amgylchedd dysgu ei gyfoethogi trwy arddangos gwaith y plant. Nid oes ardal chwarae awyr agored ond mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r neuadd ar gyfer ystod o weithgareddau. Mae'r neuadd yn helaeth ei maint ac mae adnoddau ac offer yn cael eu trefnu'n dda ac o fewn cyrraedd y plant. Mae'r adeilad yn lan a diogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol ar gyfer staff, plant a rhieni. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn rhannu'r un gwerthoedd cyffredin am ddysgu a datblygiad plant. Mae eu perthynas gyda'r plant a'r rhieni yn gadarnhaol iawn. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'r ymarferwyr a rhieni. Mae gan y cadeirydd wybodaeth dda am reolaeth gyffredinol y lleoliad ac o'r anghenion pellach. Mae'r person cofrestredig yn ymwelydd cyson ac yn ddolen gyswllt effeithiol gyda'r Cylch Ti a Fi lleol.

Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i arfarnu gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr. Mae'r defnydd ehangach o fedrau'r ymarferwyr wrth arwain gweithgareddau penodol yn enghraifft o'r trafodaethau adeiladol sydd yn rhan o'r broses.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth briodol am brif gryfderau'r lleoliad ac o rai o'r meysydd i'w datblygu. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw teg i farn y plant, y rhieni, y pwyllgor rheoli ac asiantaethau perthnasol.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod agweddau ar y ddarpariaeth yn rheolaidd. Er hyn, mae'r gweithdrefnau i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth, megis y cynllunio a threfniadaeth gweithgareddau, yn rhy anffurfiol eu natur.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Mae datblygiad pellach y corneli gweithgareddau gyda chyngor effeithiol yr athrawes gyswllt yn enghraifft o hyn.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae gweithredu'r cynllun yn ei ddyddiau cynnar ond yn datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf wedi cael sylw addas ond mae datblygu dulliau arfarnu yn parhau yn faes i dderbyn sylw.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n gynhyrchiol ag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n adeiladol at ansawdd y ddarpariaeth.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r rhieni a'r gofalwyr. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae'r ymarferwyr ar gael i gyfarfod gyda'r rhieni a'r gofalwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt am y lleoliad a'r ddarpariaeth drwy'r hysbysfwrdd, pamffledi a chylchlythyron priodol.

Mae partneriaethau buddiol gydag ysgolion cynradd y cylch drwy ymweliadau a'r cyfleoedd da i gyd-gyfrannu at weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod pontio'r plant o'r lleoliad i gam nesaf eu haddysg yn broses esmwyth.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn cyfrannu'n adeiladol at ddatblygiad pellach y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol gyda'r gymuned. Mae aelodau o'r gymuned yn cyfrannu'n bositif at brofiadau'r plant ac mae cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n addas a gwneir defnydd cynhyrchiol o amser a medrau'r ymarferwyr. Caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd adeiladol o gyfleoedd hyfforddi.  Mae'r sylw i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol yn enghraifft o hyn.  Mae defnydd priodol o ddiwrnodau hyfforddiant i rannu profiadau ac arfer dda gyda lleoliadau eraill.

Mae gan yr arweinydd a chadeirydd y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad.  Mae defnydd rheolaidd o ymgyrchoedd codi arian i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau.  O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol -**

| | |
|---|---|
| Dorothy  Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |